# Beth yw eich effaith ar y dirwedd?









Does dim byd gwell na chadw'n heini yn yr awyr agored – mae'n dda i'r enaid. Fodd bynnag, mae'r holl draed, olwynion a phadlau ychwanegol hyn yn cael effaith ar fyd natur, sydd eisoes yn fregus iawn. Gallwn barhau i fwynhau'r tirweddau prydferth hyn; dewch i ni eu hamddiffyn ar yr un pryd.

## Tair ffordd syml y gallwch leihau eich effaith:

### ✓ Dysgwch am y dirwedd – cysylltwch â thirfeddianwyr

Yn ogystal â'r perygl o beri niwed i natur ar adegau penodol o'r flwyddyn, gallech dderbyn dirwy os nad ydych yn ymwybodol bod lle yn cael ei warchod gan y gyfraith fel Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig. Cysylltwch â'r tirfeddianwyr – mae'n dda o beth iddynt fod yn ymwybodol o'ch cynlluniau. Efallai y bydd ganddynt awgrymiadau defnyddiol ac y byddant yn gallu rhoi gwybod i chi am unrhyw berygl neu fygythiad i natur. Mae hefyd yn syniad doeth gwirio beth yw cyngor eich corff chwaraeon perthnasol ar arfer da.

### ✓ Osgoi gorboblogi diangen

Fel mae digwyddiadau awyr agored yn dod yn fwy poblogaidd, mae lleoedd mewn perygl o gael eu hamserlennu ddwywaith. Gall llif trymach o ymwelwyr arwain at broblemau parcio hefyd, gyda cheir yn aflonyddu'r tir neu rwystro ffyrdd i ddefnyddwyr eraill, gan gynnwys cerbydau argyfwng. Cyn dewis dyddiad, gwiriwch galendrau digwyddiadau lleol a chenedlaethol er mwyn osgoi gwrthdaro o ran amserlennu. Anogwch bobl i ddefnyddio cludiant amgen neu gyd-deithio er mwyn lleihau allyriadau carbon.

### ✓ Byddwch yn falch o'r ffaith eich bod yn ddigwyddiad

Gall digwyddiadau gynhyrchu symiau sylweddol o wastraff. Cymerwch gamau i osgoi plastig untro: sefydlwch orsafoedd ail-lenwi dŵr os yn bosib a defnyddiwch raff yn hytrach na thâp rhwystr ceibr plastig (gan glymu darnau o ffabrig/hen grysau-t er mwyn gwella amlygrwydd). Sicrhewch fod modd ailddefnyddio neu ailgylchu unrhyw arwyddion, a pheidiwch â'u gosod gyda cheblau clymu plastig. Ewch â holl weddillion y digwyddiad gyda chi a gofynnwch i gyfranogwyr godi sbwriel ac adrodd am unrhyw ddifrod maent yn dod ar ei draws.

# Pa adnoddau sydd ar gael?

Mae adnoddau gwych ar gael i'ch cynorthwyo chi i drefnu digwyddiad sy'n cael effaith gadarnhaol ar y dirwedd.

## 1 Codi sbwriel



Mae **Trash Free Trails** yn annog pobl i wneud gwahaniaeth cadarnhaol bob tro maen nhw'n mynd i redeg, cerdded neu feicio, drwy godi sbwriel. Gweler eu pecyn cymorth 'Do It Ourselves'ar gyfer trefnwyr digwyddiadau.

## 2 Cynaliadwyedd

Mae **Preventing Plastic Pollution** yn cynnig canllaw am ddim ar gynllunio digwyddiadau cynaliadwy, sy'n canolbwyntio ar **rasys**, **tai clwb** ac **arlwyo**. Mae **Cymdeithas Chwaraeon Cynaliadwy Prydain** hefyd yn cynnig mynediad at adnoddau ac astudiaethau achos.



## 3 Bioddiogelwch




Mae **British Canoeing** yn cynnig cyngor manwl ar sefydlu mesurau bioddiogelwch mewn digwyddiadau padlo gydag adnoddau i godi ymwybyddiaeth fel rhan o'u hymgyrch GWIRIO GLÂN SYCH.

## 4 Hygyrchedd



Mae **Experience Community** yn sefydliad nid er elw sy'n gallu cynnig cyngor ar wneud digwyddiad awyr agored yn hygyrch i bobl â gwahanol anableddau.

## 5 Gorsafoedd Ail-lenwi

Cysylltwch â'ch cwmni dŵr lleol i weld a allant helpu gyda darparu gorsafoedd hydradu ac ail-lenwi ar gyfer digwyddiadau awyr agored.




## 6 Trafnidiaeth gynaliadwy



Anogwch gyfranogwyr i ystyried opsiynau trafnidiaeth amgen neu gyd-deithio. Mae **RaceLifts** yn ap ar gyfer y DU sy'n hwyluso cyd-deithio i ddigwyddiadau rasio.

National Trust

**Mae'r wybodaeth hon wedi'i chreu gan yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol i helpu trefnwyr digwyddiadau i gynllunio'n gynaliadwy. Caiff ei chefnogi gan Asiantaeth yr Amgylchedd a Trash Free Trails.**